Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Gofal Cymdeithasol Cymru

# Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Codau Ymarfer Proffesiynol**'.

**Medi 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 51**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/newidiadau-codau-ymarfer-proffesiynol

**Ebost:** codau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Cyflwyniad.......................................................................4**

Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.......................................................................5

**Am yr ymgynghoriad yma.......................................................................7**

**Sut i anfon eich sylwadau i ni.......................................................................9**

**Newidiadau i'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.......................................................................12**

**Beth rydyn ni eisiau ei newid ym mhob adran.......................13**

**Amdanoch chi.......................................................................41**

**Gwybodaeth am gydraddoldeb.......................................................................43**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth.......................48**

**Geiriau anodd.......................................................................51**

# Cyflwyniad

Ni ydy **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Rydyn ni yn gweithio i wneud yn siŵr bod gan bobl ofal cymdeithasol a chefnogaeth o ansawdd da.




Mae **gofal cymdeithasol** yn meddwl gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda'u bywyd bob dydd. Er enghraifft:

- Gofal personol
- Cartrefi gofal
- Cartrefi nyrsio
- Byw â chymorth
- Canolfannau Dydd



Rydych chi'n gallu gwylio ein fideo sy'n esbonio mwy am ofal cymdeithasol yma: https://www.youtube.com/watch?v=KQ5y0VxOtgo



Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol'

Ebrill 2017

Rydyn ni yn diweddaru'r **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**.

## Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol



Mae'r **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol** yn rhestr o ddatganiadau.



Mae'r datganiadau yn disgrifio sut mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol weithio.



Os ydy rhywun yn credu nad ydy gweithiwr gofal cymdeithasol wedi dilyn y Cod, rydyn ni yn gallu ymchwilio.



Mae hyn yn cynnwys edrych i weld bod gan y gweithiwr gofal cymdeithasol y canlynol:

- sgiliau,
- gwybodaeth,
- a'r gwerthoedd i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn dda.




Rydych chi’n gallu darllen fersiwn hawdd ei ddeall o’r Cod Ymarfer Proffesiynol cyfredol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yma: [gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau](gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau)

Fe fydd y Cod yn helpu pobl sy’n derbyn gofal i ddeall:



- sut y dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ymddwyn tuag atoch chi,



- a sut y dylai cyflogwyr eu cefnogi i wneud eu gwaith yn dda.

# Am yr ymgynghoriad yma



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.



Rydyn ni eisiau eu gwneud yn gliriach ac yn haws i'w dilyn.

Rydyn ni eisiau i'r newidiadau helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddeall yn well:




- Sut i weithredu yn y ffordd mae disgwyl iddyn nhw wneud. Yn bersonol ac ar-lein.



- Pa mor bwysig ydy cael perthynas dda gyda phobl, teuluoedd a gofalwyr.

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar gryfderau person, a beth maen nhw'n **gallu** ei wneud.



- Pwysigrwydd cefnogi pobl i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydyn ni eisiau clywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol. Yn arbennig:

- Pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Cyflogwyr.
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.
- Teuluoedd a **gofalwyr di-dâl** - pobl sy'n darparu llawer o ofal i rywun oherwydd oedran, salwch, anabledd neu gyflwr iechyd.
- Gwirfoddolwyr.



Rydyn ni wedi darganfod nad ydy'r fersiynau Cymraeg o'r Codau yn glir iawn ac yn hawdd eu deall.




Rydyn ni hefyd eisiau clywed gan siaradwyr Cymraeg. Rydyn ni eisiau gwybod beth rydyn ni'n gallu ei wneud i wneud y fersiynau Cymraeg yn glir ac yn hawdd i'w dilyn.

# Sut i anfon eich sylwadau i ni




Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau.



Rydych chi'n gallu llenwi'r ddogfen yma ar-lein a'i hanfon yn ôl at: codau@gofalcymdeithasol.cymru.



Neu rydych chi'n gallu ei argraffu a'i bostio i:

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW




Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os ydych chi eisiau amlen gyda chyfeiriad a stamp yn: codau@gofalcymdeithasol.cymru.

Rydych chi hefyd yn gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl mewn ffordd wahanol os ydy hynny'n haws i chi. Er enghraifft, rydych chi'n gallu:



- ysgrifennu,



- neu anfon recordiad fideo neu recordiad sain i ni. Fe fydd angen i chi atodi eich fideo neu recordio i ebost.



Os ydych chi angen yr ymgynghoriad yma mewn fformat gwahanol, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch ebost i ni yn: codau@gofalcymdeithasol.cymru.




Anfonwch eich sylwadau i ni erbyn **hanner dydd, 17 Rhagfyr 2024**.



Rydych chi hefyd yn gallu darllen ac ateb cwestiynau am y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol** yma: gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/newidiadau-codau-ymarfer-proffesiynol




Ar ôl yr ymgynghoriad, fe fyddwn ni yn diweddaru'r Codau.




Fe fyddwn ni hefyd yn diweddaru'r canllawiau sy'n helpu pobl i ddilyn y Codau.

# Newidiadau i'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol




Mae 7 adran yn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.




Rydych chi'n gallu darllen fersiwn hawdd ei ddeall o'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cyfredol yma: gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau



Rydyn ni wedi egluro'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud yn rhan nesaf y ddogfen yma. Mae cwestiynau i'w hateb ar ôl pob adran.

# Beth rydyn ni eisiau ei newid ym mhob adran

## Adran 1 – Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu gyda'ch hawliau. Fe fyddan nhw yn gwrando ar beth rydych chi eisiau

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**rhaid i chi**' i '**rhaid i mi**'. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni wedi canolbwyntio mwy ar hawliau pobl. Ac ar ofal sy'n canolbwyntio ar ddymuniadau ac anghenion unigolyn.



- Rydyn ni wedi canolbwyntio mwy ar sefyll i fyny i driniaeth annheg. A gwneud yn siŵr bod pobl yn cael gofal yn yr iaith maen nhw'n ei dewis.

## Adran 1 – Geiriad newydd

**Mae'n rhaid i mi barchu dymuniadau a sylwadau pobl. Mae'n rhaid i mi gefnogi hawliau pobl**

**Datganiadau**



1.1 Rhaid i mi weithio gyda phobl a'u cefnogi. Rhaid i mi weithio mewn ffyrdd sy'n rhoi anghenion a dymuniadau'r person yn gyntaf. Rhaid i mi eu parchu nhw.



1.2 Rhaid i mi barchu, cefnogi a hyrwyddo **cydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant**. Rhaid i mi beidio â **gwahaniaethu** yn erbyn neb.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, rydyn ni yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau, mae gennym ni wahanol alluoedd ac yn credu pethau gwahanol.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.



Mae **gwahaniaethu** yn meddwl trin rhywun yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eu rhyw, hil, crefydd, anabledd neu rywioldeb.




1.5 Rhaid i mi sefyll yn erbyn ac adrodd am unrhyw **wahaniaethu**. Rhaid i mi sefyll dros hawliau pobl, eu gofalwyr, teuluoedd a'm cydweithwyr.



1.4 Rhaid i mi gefnogi pobl a gofalwyr i rannu beth maen nhw'n feddwl a'u dewisiadau. Rhaid i mi eu cefnogi i gyfathrebu yn y ffordd maen nhw'n dewis. Yn yr iaith maen nhw'n ei dewis.

## Cwestiynau am adran 1

**1a. Ydy adran 1 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**1b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**


**1c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 2. Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio i gael eich ymddiriedaeth a'ch parch

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**rhaid i chi**' i '**rhaid i mi**'. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni wedi symud y datganiad am bobl sy'n defnyddio'r iaith y maen nhw yn ei dewis i adran 1.




- Rydyn ni wedi gwneud y geiriad am gadw gwybodaeth pobl yn breifat yn gryfach.



- Rydyn ni wedi gwneud y geiriad yn gryfach am **ffiniau proffesiynol**. Ac am dderbyn anrhegion. Rhaid i weithwyr egluro'r rheolau i bobl a theuluoedd.




**Ffiniau proffesiynol** ydy'r terfynau mewn perthynas rhwng gweithiwr gofal cymdeithasol a pherson a'u gofalwyr a'u teulu. Er enghraifft, ni ddylai gweithwyr gofal cymdeithasol ddefnyddio cartref rhywun fel eu cartref eu hunain.

## Adran 2 - Geiriad newydd

**Rhaid i mi wneud beth rydw i'n gallu i ennill a chadw ymddiriedaeth pobl a gofalwyr**

---

### Datganiadau



2.1 Rhaid i mi fod yn onest ac yn ddibynadwy.



2.2 Rhaid i mi gyfathrebu mewn ffordd agored, gwir a syml.



2.3 Rhaid i mi barchu gwybodaeth bersonol. A dim ond mewn ffyrdd sydd wedi cael eu cytuno gan fy nghyflogwr y byddaf yn ei rannu.



2.4 Rhaid i mi beidio â chamddefnyddio ymddiriedaeth pobl a gofalwyr. Rhaid i mi beidio â chamddefnyddio eu gwybodaeth bersonol, eiddo, cartref neu weithle.



2.5 Rhaid i mi egluro'n glir y rheolau i bobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr am:

- preifatrwydd
- derbyn rhoddion
- a **ffiniau proffesiynol**.

**Rhaid i mi ddilyn y rheolau drwy'r amser.**




2.6 Rhaid i mi fod yn ddibynadwy. Mae hyn yn meddwl gwneud beth rydw i wedi cytuno i'w wneud. Os nad ydw i'n gallu, mae'n rhaid i mi egluro pam.



2.7 Rhaid i mi beidio â gadael i'm hanghenion a'm safbwyntiau effeithio ar y ffordd rydw i'n gweithio. Rhaid i mi ddeall a bod yn agored am unrhyw beth sydd yn gallu effeithio ar fy ngwaith.

## Cwestiynau am adran 2

**2a. Ydy adran 2 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**2b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**2c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 3. Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu i godi llais a bod yn ddiogel



**Prif newidiadau:**

- Rydyn ni wedi newid ‘**rhaid i chi**’ i ‘**rhaid i mi**’. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni wedi dileu datganiadau sydd ddim yn glir, yn anodd eu profi neu sy’n ailadrodd.

## Adran 3 - Geiriad newydd

**Rhaid i mi gefnogi pobl i gael llais, dewis a rheolaeth wrth eu cefnogi i gadw’n ddiogel**

---

**Datganiadau**



3.1 Rhaid i mi gefnogi a gweithio gyda phobl mewn ffordd sy’n eu helpu:

- i gael llesiant da
- i gadw yn ddiogel.



3.2 Rhaid i mi gefnogi pobl a gofalwyr i siarad am bryderon neu i wneud cwynion. Rhaid i mi gymryd cwynion o ddifrif. A dilyn y polisïau a'r prosesau cywir.



3.3 Rhaid i mi weithio gyda phobl a gofalwyr mewn ffordd sy'n eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain.



3.4 Rhaid i mi weithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi pobl. Rhaid i mi ddefnyddio prosesau sydd wedi eu cytuno a rhannu gwybodaeth lle mae angen.



3.5 Rhaid i mi sefyll i fyny i, neu adrodd am unrhyw ymddygiad sydd yn gallu niweidio pobl.

## Cwestiynau am Adran 3

**3a. Ydy adran 3 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**3b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**3c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

## Adran 4. Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn parchu eich hawliau ac yn eich helpu i fod yn ddiogel

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid ‘**rhaid i chi**’ i ‘**rhaid i mi**’. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni wedi gwneud **cymryd risg gadarnhaol** yn fwy pwysig.

**Cymryd risgiau cadarnhaol** ydy gwneud dewisiadau sydd yn gallu cynnwys rhywfaint o risg, ond mae'r buddion yn werth chweil. Er enghraifft, chwarae chwaraeon, neu roi cynnig ar weithgaredd newydd.



- Rydyn ni wedi ychwanegu datganiad am **ddiogelu**.

Mae **diogelu** yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth.

## Adran 4 - Geiriad newydd

**Rhaid i mi gefnogi pobl i gael llais, dewis a rheolaeth wrth eu cefnogi nhw i gadw'n ddiogel**

### Datganiadau



4.1 Rhaid i mi weithio gyda phobl a gofalwyr i gymryd **risgiau cadarnhaol** a dilyn eu dewisiadau eu hunain.




4.2 Rhaid i mi ddilyn polisïau **diogelu**.



4.3 Rhaid i mi ddilyn polisïau **asesu risg** i weld ydy pobl neu ofalwyr yn gallu brifo eu hunain neu bobl eraill.

Mae **asesiad risg** yn ffordd o feddwl am bethau sydd yn gallu digwydd ac sydd yn gallu achosi niwed. A chynllunio beth i'w wneud i osgoi'r pethau hynny.



4.4 Rhaid i mi wneud beth sydd ei angen i leihau risgiau.



4.5 Rhaid i mi wneud yn siŵr bod fy nghydweithwyr a sefydliadau yn cael gwybod am **asesiadau risg**.

# Cwestiynau am Adran 4

**4a. Ydy adran 4 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**4b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**


**4c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 5. Mae pawb yn ymddiried mewn gweithiwr gofal cymdeithasol i wneud gwaith da

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid ‘**rhaid i chi**’ i ‘**rhaid i mi**’. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni wedi dileu datganiadau am **gwahaniaethu**. Mae hyn yn cael ei gynnwys yn adran 1.

## Adran 5 - Geiriad newydd

**Rhaid i mi fod yn ddibynadwy a gweithio mewn ffordd sy’n ddibynadwy. Pan fydda i yn y gwaith, y tu allan i’r gwaith, ar-lein ac yn bersonol**

**Datganiadau**



5.1 Rhaid i mi beidio â cham-drin neu niweidio pobl, gofalwyr neu gydweithwyr.




5.2 Rhaid i mi gadw **ffiniau proffesiynol** gyda phobl, teuluoedd a gofalwyr.



5.3 Rhaid i mi beidio â chael **perthynas amhriodol** gyda phobl, teuluoedd neu ofalwyr.

> Mae **perthynas amhriodol** yn berthynas bersonol sy'n croesi **ffiniau proffesiynol**. Er enghraifft, bod yn rhy gyfeillgar â phobl, derbyn anrhegion, amharchu pobl, camddefnyddio eu pethau neu eu cartref, a pherthynas ramantus neu rywiol.



5.4 Rhaid i mi ddweud wrth fy nghyflogwr os ydy fy nymuniadau a'm safbwyntiau personol yn gallu effeithio ar fy ngwaith. Rhaid i mi gymryd camau i wneud yn siŵr nad ydy fy mywyd personol yn effeithio ar fy ngwaith.




5.5 Rhaid i mi beidio â thorri'r gyfraith. Rydw i'n deall, os ydw i'n gwneud hynny efallai y bydd fy ngallu i weithio ym maes gofal cymdeithasol yn cael ei gwestiynu.



5.6 Rhaid i mi ddweud wrth fy nghyflogwr a Gofal Cymdeithasol Cymru os ydw i'n cael fy arestio neu fy nghyhuddo o drosedd.



5.7 Rhaid i mi osgoi rhoi fy hun neu bobl eraill mewn perygl.



5.8 Rhaid i mi beidio ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n gwneud i bobl gwestiynu fy ngallu i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

## Cwestiynau am Adran 5

**5a. Ydy adran 5 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**5b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**


**5c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 6. Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gwneud gwaith da ac yn cael hyfforddiant da

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi newid '**rhaid i chi**' i '**rhaid i mi**'. Rydyn ni eisiau i weithwyr ddeall eu bod yn gyfrifol am ddilyn y Cod.



- Rydyn ni yn rhannu 1 o'r datganiadau yn 2 ran i'w gwneud yn gliriach.



- Rydyn ni wedi ychwanegu datganiad am **oruchwylio**.

> **Goruchwylio** ydy pan fydd rheolwr yn eistedd i lawr gyda gweithiwr i siarad ac edrych ar ei waith.

## Adran 6 - Geiriad newydd

**Rydw i'n gyfrifol am ansawdd fy ngwaith. Rhaid i mi ddiweddaru fy ngwybodaeth a'm sgiliau a pharhau i wella**

### Datganiadau



6.1 Rhaid i mi ddarllen, deall a dilyn y polisïau, prosesau a Chodau Proffesiynol cywir.



6.2 Rhaid i mi ddilyn y prosesau yn iawn. Rhaid i mi weithio'n ddiogel, yn dda ac o fewn y gyfraith.



6.3 Rhaid i mi gadw cofnodion clir a chywir.



6.4 Rhaid i mi ddweud wrth fy nghyflogwr am unrhyw beth sydd yn gallu effeithio ar fy ngallu i wneud fy ngwaith.



6.5 Rhaid i mi ofyn i'm cyflogwr am help os nad ydw i'n siŵr sut i wneud rhywbeth.



6.6 Rhaid i mi fod yn agored ac yn onest gyda phobl os bydd pethau'n mynd o chwith. Rhaid i mi weithio gyda fy nghyflogwr, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill i gefnogi ymchwiliadau.



6.7 Rhaid i mi barhau i wella fy sgiliau a gwybodaeth.




6.8 Rhaid i mi gymryd rhan mewn **goruchwylio**. Rhaid i mi feddwl am fy ngwaith a sut rydw i'n gallu gwella.



6.9 Rhaid i mi weithio'n agored gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Rhaid i mi eu cefnogi lle bynnag rydw i'n gallu.



6.10 Rhaid i mi ddeall mai fi sy'n gyfrifol am y gwaith rydw i'n gofyn i eraill ei wneud.



6.11 Rhaid i mi weithio gyda fy nghyflogwr, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill i gefnogi unrhyw ymchwiliadau i'm gwaith. Rhaid i mi hefyd helpu gydag ymchwiliadau am weithwyr eraill.

## Cwestiynau am Adran 6

**6a. Ydy adran 6 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**6b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**6c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Adran 7. Fe fydd gweithiwr gofal cymdeithasol sy'n bennaeth yn dweud wrth weithwyr am y codau hyn




Mae'r adran yma  ar gyfer rheolwyr neu arweinwyr gweithwyr gofal cymdeithasol.

**Prif newidiadau:**



- Rydyn ni wedi cynnwys disgrifiad yn dweud i bwy mae'r adran yma.



- Rydyn ni wedi dileu'r gair gweithle. Oherwydd bod rhai gweithwyr gofal cymdeithasol yn gweithio yng nghartrefi pobl.



- Rydyn ni wedi ychwanegu datganiad am wella ffyrdd diogel o weithio.

## Adran 7 - Geiriad newydd

**Rydw i'n gyfrifol am reoli neu arwain fy ngweithwyr. Rhaid i mi wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**



Mae'r adran yma ar gyfer rheolwyr neu arweinwyr.

### Datganiadau



7.1 Rhaid i mi gefnogi fy nghydweithwyr i drafod unrhyw bryderon. Rhaid i mi gefnogi fy ngweithwyr i siarad am eu gwaith a meddwl amdanyn nhw. A rhannu'r ffyrdd gorau o weithio.




7.2 Rhaid i mi wneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwybod am y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**. A deall sut i'w ddilyn.



7.3 Rhaid i mi wneud yn siŵr bod gweithwyr yn gallu gwella drwy ddysgu, hyfforddi a datblygu.



7.4 Rhaid i mi ddarparu **goruchwyliaeth** i gefnogi gweithwyr gyda'u gwaith.



7.5 Rhaid i mi gael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n digwydd ym maes gofal cymdeithasol. Er enghraifft, drwy edrych ar gwynion ac adborth, a goruchwylio gwaith gweithwyr.



7.6 Rhaid i mi ddelio ag unrhyw bryderon neu gwynion yn gyflym ac yn dda. Rhaid i mi ddilyn y polisïau a'r prosesau cywir ar gyfer hyn.

# Cwestiynau am Adran 7

**7a. Ydy  adran 7 yn glir ac yn hawdd ei deall?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**7b. Oes yna unrhyw beth ar goll neu ddim ei angen?**

**7c. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

# Amdanoch chi

**1. Ydych chi yn ateb yr ymgynghoriad yma:**



☐ fel unigolyn
(Cliciwch ar gwestiwn 2)



☐ ar ran sefydliad
(Ewch i gwestiynau 3)



**2. Os ydych chi'n ateb fel unigolyn, rhowch wybod i ni os ydych chi'n weithiwr, yn wirfoddolwr neu'n berson sy'n defnyddio gofal. Dywedwch wrthyn ni pa fath o rôl sydd gennych.**

Er enghraifft, person sy'n defnyddio gofal a chymorth, aelod o'r teulu, gwirfoddolwr, rheolwr cartref gofal, darparwr gofal plant.


**Peidiwch â dweud eich enw wrthyn ni.**



1. **Os ydych chi yn ateb ar ran sefydliad, rhowch wybod i ni:**



**Enw eich sefydliad:**




**Ydy hi'n iawn cyhoeddi enw'ch sefydliad yn ein hadroddiad?**

**Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐



**Math o sefydliad. Er enghraifft, awdurdod lleol, darparwr gofal plant, darparwr addysg.**

# Gwybodaeth am gydraddoldeb



Does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau yma os nad ydych chi eisiau. Peidiwch â chwblhau'r rhan yma o'r ffurflen os ydych chi yn sefydliad.



Rydyn ni yn casglu'r wybodaeth yma i'n helpu i ddeall pwy sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.



Fe fydd hyn yn ein helpu i weld a oes angen i ni wneud mwy o waith i gael barn grwpiau gwahanol o bobl, o wahanol gefndiroedd.




Efallai y bydd y wybodaeth sydd yn cael ei rhoi yn cael ei rhannu fel rhan o adroddiad, ond fe fydd y wybodaeth yn **ddienw** - fydd neb yn gwybod pwy ddywedodd beth.



**1. Dywedwch wrthyn ni am eich cefndir ethnig.**

Er enghraifft, Prydeinig, Asiaidd, Tsieineaidd, Du, Gwyn.

**1. Ydych chi yn:**



- [ ] Benyw

- [ ] Gwryw



- [ ] **Trawsryweddol** - person nad yw ei rywedd yr un fath â'r rhyw oedd ganddyn nhw iddo pan gawson nhw eu geni.

- [ ] **Anneuaidd** - person nad ydy ei rywedd yn cyd-fynd â syniadau arferol o beth sy'n wrywaidd a beth sy'n fenywaidd. Mae person anneuaidd yn gallu teimlo neu wybod nad ydyn nhw'n ddyn nac yn fenyw.



- [ ] **Rhyweddhylifol** – person sydd ddim yn nodi bod ganddo 1 rhyw sefydlog.



- [ ] Mae'n well gen i beidio ag ateb

- [ ] Mae'n well gen i ddefnyddio fy ngeiriau fy hun i ddisgrifio fy hun. Dywedwch wrthyn ni isod:



**1. Ydych chi'n ystyried eich bod yn anabl?**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ansicr
- [ ] Mae'n well gen i beidio ag ateb



**2. Ydych chi yn:**

- [ ] Deurywiol
- [ ] Heterorywiol neu'n syth
- [ ] Cyfunrywiol neu Hoyw
- [ ] Menyw lesbiaidd neu hoyw
- [ ] Ansicr
- [ ] Mae'n well gen i beidio ag ateb

Cymraeg

**1. Ydych chi’n siarad Cymraeg?**

- [ ] Ydw, yn rhugl
- [ ] Ydw, rydw i’n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg
- [ ] Ydw, rydw i’n gallu siarad Cymraeg sylfaenol
- [ ] Ydw, rydw i’n gallu siarad Cymraeg da, ond ddim yn rhugl
- [ ] Nac ydw
- [ ] Mae’n well gen i beidio ag ateb

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR)**.



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Fe fydd eich atebion yn **ddienw** – fe fydd hyn yn rhoi gwybod pwy sydd wedi dweud beth. Oni bai eich bod yn sefydliad ac wedi dweud wrthyn ni ein bod yn gallu dweud wrth bobl beth rydych chi wedi ei ddweud.




Os ydy'ch atebion yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 5 mlynedd mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei gadw.




Mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:




**Swyddog Diogelu Data**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Southgate House

Stryd Wood

Caerdydd

CF10 1EW





**Ebost:** FOI@socialcare.wales


Rydych chi  hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**:


2il Llawr Churchill House

Churchill Way

Caerdydd

CF10 2HH

**Ffôn:** **0330 414 6421** neu **02920 678 400**

**Ebost:** wales@ico.org.uk

**Website:** https://ico.org.uk

# Geiriau anodd

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, rydyn ni yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau, mae gennym ni wahanol alluoedd ac yn credu pethau gwahanol.

## Asesiad risg

Mae asesiad risg yn ffordd o feddwl am bethau sydd yn gallu digwydd ac sydd yn gallu achosi niwed. A chynllunio beth i'w wneud i osgoi'r pethau hynny.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Cymryd risgiau cadarnhaol

Cymryd risgiau cadarnhaol ydy gwneud dewisiadau sydd yn gallu cynnwys rhywfaint o risg, ond mae'r buddion yn werth chweil. Er enghraifft, chwarae chwaraeon, neu roi cynnig ar weithgaredd newydd.

## Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl  bod pawb yn gallu cymryd rhan, ac mae gan bawb gyfle teg.

## Diogelu

Mae diogelu yn meddwl cadw pobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth

### Ffiniau proffesiynol

Ffiniau proffesiynol ydy'r terfynau mewn perthynas rhwng gweithiwr gofal cymdeithasol a pherson a'u gofalwyr a'u teulu. Er enghraifft, ni ddylai gweithwyr gofal cymdeithasol ddefnyddio cartref rhywun fel eu cartref eu hunain.

### Goruchwylio

Goruchwylio ydy pan fydd rheolwr yn eistedd i lawr gyda gweithiwr i siarad ac edrych ar ei waith.

### Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn meddwl trin rhywun yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eu rhyw, hil, crefydd, anabledd neu rywioldeb.

### Perthynas amhriodol

Mae perthynas amhriodol yn berthynas bersonol sy'n croesi ffiniau proffesiynol. Er enghraifft, bod yn rhy gyfeillgar â phobl, derbyn anrhegion, amharchu pobl, camddefnyddio eu pethau neu eu cartref, a pherthynas ramantus neu rywiol.